# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at Remote Meeting on Dydd Mawrth, 19eg Ionawr, 2021 at 10.00 am**

| **Councillors Present** | **Officers in Attendance** |
|---|---|
| County Councillor T.Thomas (Chairman)<br>County Councillor L. Brown (Vice Chairman)<br><br>County Councillors: M.Groucutt, M.Lane, M. Powell, L.Dymock, P. Murphy, A. Watts and S. Woodhouse<br><br>Also in attendance County Councillors: | Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc<br>Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau<br>Sharon Randall-Smith, Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad<br>Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid<br>Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Tyrone Stokes, Rheolwr Cyllid<br>Julie Boothroyd, Chief Officer Social Care, Safeguarding and Health<br>Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog<br>Dave Loder, Rheolwr Cyllid |

**APOLOGIES:** Councillors

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

3. **Monitro Cyllideb: Craffu ar sefyllfa monitro cyfalaf a refeniw'r gyllideb ym Mis 7, gan osod y cyd-destun ar gyfer craffu ar gynigion cyllidebol.**

   Cyflwynodd Tyrone Stokes a Nicola Wellington yr adroddiad ac ateb cwestiynau aelodau.

   **Her:**
   *A ydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewn iechyd a gwasanaethau plant fel ein bod yn gwybod mewn da bryd pa blant sy'n dod trwodd y bydd angen iddynt fynd i ddarpariaeth tu allan i'r sir yn ddiweddarach, fel y gallwn gynnwys y costau yn y gyllideb ar gyfer blynyddoedd i ddod?*

   Rydym yn ymwybodol iawn o'r costau addysg sy'n dod trwodd ac rydym wedi gweld gwelliant mewn amcanestyniadau mewn blynyddoedd diweddar. Mewn misoedd diweddar rydym wedi rhoi dull tracio ar waith fydd yn olrhain disgyblion o ddechrau eu haddysg, ac felly'r costau wrth iddynt symud drwy eu haddysg. Bydd hyn yn sicr yn rhoi llawer mwy o eglurdeb am gostau'r dyfodol ar gyfer ein holl ddisgyblion. Gweithiwn yn agos iawn gyda chydweithwyr mewn iechyd ac addysg.

Pan gyflwynir plentyn i'r awdurdod lleol, mae gennym ddull gweithredu am-asiantaeth; rydym yn delio gydag iechyd ac yn ceisio sicrhau'r cyllid priodol; yn yr un modd gydag addysg, ac os ydynt angen mwy o gymorth addysg, gallwn gysylltu â'r corff perthnasol eto.

Bu gennym ddull tracio yn ei le am y 7 neu 8 mlynedd diwethaf mewn Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant. Ychydig flynyddoedd yn ôl, daeth swyddogion â phapur i'r pwyllgor yn cynnwys ystod o gostau uned ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal: ar gyfartaledd mae'n £45k y flwyddyn. Ond mae'n amrywio llawer. Os yw plant mewn gofal maeth, y gost uned y £28-30k y flwyddyn, ond os ydynt mewn gofal preswyl tu allan i'r sir, gallai fod gymaint â £300-500k y flwyddyn.

Mae Gwasanaethau Plant mewn lle da iawn yn awr, ar ôl cynyddu ein hymyriad ac ataliad, ac rydym wedi gwneud gwaith gwych mewn blynyddoedd diweddar. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn sefydlogi ar 220. Yr hyn na allwn roi sicrwydd i aelodau amdano yw sut y bydd y niferoedd yn amrywio wrth i ni ddod allan o'r pandemig, a'r cyfeiriad y bydd y llysoedd yn ei roi i ni. Roedd papur arall a aeth at aelodau yn flaenorol yn ymwneud â thîm cymorth MIST a all edrych ar fwy o wasanaethau mewnol a chymunedol , yn hytrach na gorfod rhoi plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau drud tu allan i'r sir.

*Gyda phwysau ar gyllidebau, a ydym yn dal i fod yn buddsoddi'n helaeth mewn gwasanaethau atal a chymorth i deuluoedd? Mae'n debyg y bydd y niferoedd sefydlog yn annhebyg o barhau pan fydd effeithiau'r pandemig yn taro nes ymlaen,*

Ie, dyna yw'r anhawster yn awr. Wrth i ni ddechrau symud allan, ni fedrwn fod yn hunanfodlon fod y niferoedd yn sefydlogi. Rydym yn dal i fuddsoddi'n helaeth yn y gwasanaethau ymyriad ataliol ac yng nghyllideb y flwyddyn nesaf byddwn yn anelu i fynd i'r afael â'r diffyg yn y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau plant, felly rydym yn parhau â'r buddsoddiad hwnnw hefyd.

*A allwn gael y ffigur am gyfanswm y diffyg ym mis 7 ac sut mae hynny'n cysylltu gyda'r gyllideb Plant a Phobl Ifanc?*

Roedd diffyg Mis 7 yn orwariant o £6.43m ar gyfer cronfa refeniw'r Cyngor, gyda £5.91m o hynny yn ymwneud â Covid. Yn nhermau gwasanaethau plant, nid oes dim o hynny yn cyfeirio at Covid – cafodd unrhyw bwysau cysylltiedig â Covid yno eu hadennill yn llawn drwy'r gronfa Caledi. Mae'r gorwariant mewn gwasanaethau plant yn £1.46m, sy'n cyfeirio at y costau fyddai wedi bod gennym beth bynnag, oherwydd cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal (ychydig dros £1.1m), y dyfarniad cyflog uwch yn y flwyddyn a'r costau cyfreithiol. Mae Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc £125k drosodd.

*Mae'n amlwg fod budd ariannol i recriwtio ein staff ein hunain mewn gwasanaethau plant, yn ogystal ag un dynol. A fedrid dileu cost staff asiantaeth yn y flwyddyn nesaf?*

Pan wnaethom osod y gyllideb, roedd gennym 197 o blant sy'n derbyn gofal, a gynyddodd i 218 mewn ychydig fisoedd. Mae hyn yn effeithio ar y gwasanaethau cymorth eraill: cyfreithiol, cludiant a staffio. Weithiau mae'n rhaid i ni fynd at staff asiantaeth i ymdopi tra'n bod yn ceisio recriwtio ac i ddelio gyda'r cynnydd mawr yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae gennym gynllun gweithlu a grŵp sy'n edrych ar hyn ar sail barhaus i weld sut y gallwn fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i recriwtio yn fewnol.

*Pa ganran dros y 12 mlynedd diwethaf fu'n staff asiantaeth a beth yw'r ymrwymiad contract ar gyfer gweithiwr asiantaeth?*

Roedd y canran o staff asiantaeth yn llawer uwch ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae'n debyg fod y sefyllfa staffio mewn gwasanaethau plant yn fwy sefydlog nag a fu yn y degawd diwethaf. Fel y nodir uchod, mae cynllun ar waith sy'n adolygu ac yn monitro gofyniad a defnydd asiantaethau. Rydym yn denu pobl ragorol sydd eisiau gweithio ac aros yn Sir Fynwy ond mae adegau pan mae problemau salwch, swyddi gwag ac yn y blaen, a gall gymryd amser i gael rywun i mewn o'r safon cywir. Buom yn rhedeg staff asiantaeth ar gontractau hirach – nid oes lefel ddynodedig, mae ynglŷn â'r gwasanaeth a'r anghenion gweithredol ar adeg neilltuol. Rydym wedi medru trosi rhai staff asiantaeth i fod ein staff ein hunain, sy'n gadarnhaol iawn. Ond derbyniwn y gall fod ymyriad mewn cael staff asiantaeth. Y bwriad yw cael ein gweithlu ein hunain ond bydd bob amser rai staff asiantaeth. Mae gennym 6 o staff asiantaeth ar hyn o bryd – tua 8%. Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd yn 12-13 staff asiantaeth; eleni rydym wedi llwyddo i ostwng ein defnydd asiantaeth yn ei hanner a throsi'r staff.

*Beth yw'r gwahaniaeth ariannol rhwng cyflogi aelod asiantaeth a datblygu ein staff ein hunain?*

Nid yw'n ateb syml oherwydd y gallwn amrywio'r oriau y mae staff asiantaeth yn eu gweithio. Drwyddi draw, mae effaith hyn tua £200-250k ond rydym wedi llwyddo i negodi gyda Llywodraeth Cymru i geisio cael peth o hynny drwy'r Gronfa Caledi lle mae'n ymwneud â phwysau cynyddol.

*Mae Atodiad 3 yn cyfeirio at lithriad o £12.5m yn y cynllun Ysgolion 21ain Ganrif yn y Fenni, sy'n achos consyrn. A allwn gael sicrwydd bod y prosiect yn ôl ar y trywydd ac ar amser?*

Bu oedi yn y prosiect oherwydd y sefyllfa bresennol gyda'r pandemig. Rydym wedi penodi rheolwyr y prosiect a phenseiri, felly mae'n symud ymlaen a gallwn sicrhau aelodau ein bod yn gweithio tuag at y dyddiad agor yn 2024 – mae popeth ar y trywydd ar gyfer hynny ar hyn o bryd.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Mae swyddogion wedi amlinellu'r anawsterau a chost nifer y plant sy'n derbyn gofal yn codi o 197 i 200. Mae gan hyn oblygiad cost, gyda chynnydd mewn ffioedd cyfreithiol a chynnydd cyflog ar gyfer staff. Roedd gennym gwestiynau manwl am y gyllideb a'r meysydd yn gysylltiedig â Covid a defnydd staff asiantaeth sydd a chost sylweddol ac ystyriaethau dynol. Yn nhermau cyllideb Plant a Phobl Ifanc, mae'n dda nodi fod llai o ysgolion mewn diffyg, er fod 3 yn dal i fod mewn diffyg. Mae budd mewn peidio gorfod talu i'r canolfannau hamdden. Yn gyffredinol, ymddengys ein bod mewn sefyllfa gryfach yn y dyfodol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, heb unrhyw doriadau mawr yn y flwyddyn i ddod. Mae hefyd yn dda clywed fod yr ysgol newydd 3-19 yn symud yn ei blaen.

4. **<u>Craffu ar y Gyllideb: Craffu ar gynigion y gyllideb ar gyfer 2021/22.</u>**

Rhoddodd Peter Davies, Nicola Wellington a Tyrone Stokes gyflwyniad ac adroddiad, ac ateb cwestiynau aelodau, ynghyd â Julie Boothroyd a Phil Murphy, Aelod o'r Cabinet.

**Her:**
*Mae'n rhaid bod Monlife wedi colli llawer o refeniw gan ysgolion yn defnyddio canolfannau hamdden yn ogystal â champfeydd ar gau. A ydym yn hapus y gall Monlife ddod drwy'r storm?*

Ni fedrai'r amseriad fod wedi bod yn ddim gwaeth ar gyfer Monlife yn nhermau'r hyn ddigwyddodd eleni. Cafodd y colledion incwm a ddioddefodd Monlife eu talu'n llawn gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Caledi Covid – mae'n glod iddynt eu bod wedi dilyn lan gyda'r cyllid yn delio â diffygion incwm fel canlyniad i'r pandemig. Disgwyliwn i hyn barhau i'r flwyddyn

nesaf nes bydd gwsanaethau'n ôl ac yn rhedeg. Er y cafodd nifer o staff Monlife eu rhoi ar ffyrlo rydym wedi defnyddio'r capasiti hwnnw i gefnogi Profi, Olrhain a Diogelu ac wedi cynorthwyo gyda gweinyddu grantiau busnes. Bydd yn cynorthwyo i gefnogi peth o ledaeniad y pandemig, gan weithio gydag iechyd.

*Gan fod nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu, a oes unrhyw gyfle ar gyfer grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, yn arbennig os yw'r cynnydd yn fwy nag mewn awdurdodau lleol eraill?*

Bu rhai symiau bach o gyllid sydd wedi helpu ar y cyrion, ond dim byd yn benodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Dros flwyddyn yn ôl fe wnaeth tasglu Llywodraeth Cymru asesu ein strategaeth o amgylch y gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, ac mae'n rhaid i ni adrodd yn chwarterol ar sut ydym yn symud ymlaen. Felly cedwir golwg agos iawn o safbwynt Llywodraeth Cymru. Mae ein niferoedd wedi aros yn yr unfan eleni, a gobeithiwn y bydd hynny'n parhau. Bu symiau bach o arian grant a ddaeth drwodd yn ddefnyddiol wrth hybu ymyriad a darpariaeth ataliaeth, i atal cynyddu ymhellach i wasanaethau mwy costus. Drwy'r dystiolaeth a gasglwyd, gobeithiwn fedru sicrhau arian o ffynonellau eraill.

*A yw'r 3 disgybl oedd yn parhau yn Nhŷ Mounton yn dal yno, ac a yw hynny dan yr Uned Cyfeirio Disgyblion? Beth yw'r cynllun ar eu cyfer?*

Mae'r 3 disgybl y cyfeirir atynt yn ddisgyblion o Sir Fynwy oedd yn Nhŷ Mounton pan gafodd ei gau. Mae dau yn awr wedi symud i ddarpariaeth annibynnol, mae un wedi symud i'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Cafodd y gost ar gyfer pob un o'r 3 ei gynnwys a bydd yn y tracer y soniwyd amdano ynghynt wrth i ni symud ymlaen.

*A yw'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn seiliedig yn Nhŷ Mounton? A oes disgyblion eraill ar gyfer yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn seiliedig yno?*

Mae Tŷ Mounton yn dal yn wag. Byddai achos busnes i gefnogi'r ddarpariaeth honno pe byddem yn penderfynu symud y ffordd honno, ond ni fyddai'n un disgybl, byddai'r gwasanaeth Uned Cyfeirio Disgyblion. Rydym yn edrych ar yr opsiwn hwnnw ond mae goblygiadau cost i weithio drwyddynt.

*Mae consyrn am gasglu treth gyngor yn dilyn effeithiau economaidd Covid a'r newidiadau mewn demograffeg. A gafodd hynny ei werthuso'n iawn a'i gynnwys yn y cyfrifiadau?*

Cafodd y cynnyrch treth ei seilio ar i ni benderfynu ar sylfaen treth gyngor ar gyfer y cyngor. Un o'r sbardunau am hynny yw ei fod yn amcanestyniad ac asesiad o'r nifer o anheddau y codir tâl amdanynt a chartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu. Yr ail ystyriaeth allweddol yw cyfradd casglu'r dreth gyngor. Yr ydym mewn gwirionedd wedi cadw tybiaeth sylfaenol o gyfradd casglu o 99% oherwydd fod ein data yn dangos nerth ac adladd cadarnhaol ar gasglu. Os ydym yn cymharu gydag awdurdodau eraill yng Nghymru, mae gennym sefyllfa adfer llawer cryfach drwyddi draw. Rydym yn gysurus yn ei ddal ar 99%. Mae'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau yn greiddiol i waith Richard Jones (Polisi a Llywodraethiant) a'i dîm, yn edrych ar asesiad Effaith ar Gydraddoldeb Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol – mae'r dreth gyngor yn nodwedd allweddol yn hynny. Mae hefyd yn edrych ar effaith amrywiaeth o gynigion cyllideb a chanlyniad hynny gyda rhai ar incwm is. Mae cynlluniau gostwng Treth Gyngor a'r disgownt sydd ar gael i deuluoedd yn bwysig. Mae'n anodd iawn i'r cyngor sicrhau'r fantol oherwydd ei sefyllfa ariannol. Mae'r Cabinet yn cynnig cynnydd o 4.9% ond mae mesurau diogelwch a lliniaru yn eu lle o amgylch y disgownt sydd ar gael.

*Yng nghyswllt y rhestr o risigau posibl, a ydym yn hyderus wrth werthuso'r buddsoddiadau nad ydym yn effeithio ar ein gallu i fenthyca yn y dyfodol?*

Ydym, nid oedd y sleid ar risgiau ac ystyriaethau yn cynnwys popeth. Mae un pwynt bwled yn siarad am y pwysau nad ydym yn gwybod amdanynt hyd yma – dyma'r gofrestr risg strategol, sy'n dangos lle mae gennym risgiau a allai ddod. Caiff y gyllideb ei seilio ar gyfres o dybiaethau. Er enghraifft, pe byddai swyddog yn gofyn am arian ychwanegol mewn cynnig cyllideb ar gyfer pwysau ychwanegol ond yn methu rhoi tystiolaeth bod y pwysau hynny i ddod, ni fyddai'n cael ei gynnwys. Mae'r dybiaeth resymol a gyflwynwyd yn seiliedig ar bwysau plant sy'n derbyn gofal y mae'n rhaid i ni eu lletya, a'r ffaith ei fod wedi sefydlogi. Rydym yn edrych ar bob achos ar wahân a chysuro ein hunain ar y tybiaethau sylfaenol. Nid ydym seilio pethau ar risgiau sy'n llai tebygol na thebygol, oherwydd os ydynt yn llai tebygol yna byddai'n ddoeth eu cynnwys yn y gyllideb mewn rhyw ffordd arall.

*Gan edrych ar y risgiau presennol, a'n hanallu posibl i fenthyca, a oes risg bosibl ar gyllido ar draws y bwrdd?*

Cawn ein rheoli gan y Cod Materion Ariannol, sy'n penderfynu bod ein benthyca yn fforddiadwy, cynaliadwy a darbodus. Mae dangosyddion yn gosod trothwyon y gweithiwn o'u mewn. Mae gennym ddigon o le ar gael yn ein gallu benthyca. Yn y pen draw, bydd y gallu i benderfynu os yw ein benthyca yn gynaliadwy, darbodus a fforddiadwy yn dod o fewn ei gallu i'w gyllido o fewn y gyllideb refeniw h.y. y costau benthyca yn nhermau llogau ac ad-dalu, a elwir yn MRP. Nid oes gennym unrhyw bryderon yn y cyswllt hwnnw ar hyn o bryd. Er gwybodaeth bellach, bydd y strategaeth trysorlys yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio ac yna'r Cyngor ar 11 Mawrth, a bydd yn gwneud y casgliadau hynny.

**Crynodeb y Cadeirydd:**
Gofynnwyd cwestiynau am Monlife a chynaliadwyedd, materion grantiau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a materion yn ymwneud â chasglu'r dreth gyngor, yn ogystal â chwestiynau ehangach y bernid eu bod tu allan i gwmpas y pwyllgor hwn. Er gwybodaeth, bydd ymgynghoriad rhithiol dros y 4 wythnos nesaf. Bydd y dudalen ar y gyllideb ar y wefan yn cynnwys trosolwg, dolen i gyflwyniad yr ymgynghoriad ar y gyllideb craidd, papurau'r gyllideb, blog gan Phil Murphy, Aelod o'r Cabinet a ffurflen adborth. Bydd atebion i gwestiynau cyffredinol am y gyllideb ar gael ym mhapurau'r Gyllideb.

**5. <u>Diweddariad llafar ar y sefyllfa gydag ysgolion a dysgu cyfunol: Prif Swyddog, Plant a Phobl Ifanc</u>**

Rhoddodd Will McLean ddiweddariad ac ateb cwestiynau aelodau:

Ar 17 Rhagfyr penderfynodd yr awdurdod lleol ar ei gynlluniau ar gyfer dychwelyd i'r ysgol, gyda chytundeb y dylai dau ddiwrnod cyntaf y tymor fod yn ddysgu o bell gyda wyneb-i-wyneb yn ailddechrau ar 6 Ionawr. Hysbyswyd rhieni am y penderfyniad hwnnw ac fe wnaethom gytuno ar 4 Ionawr i werthuso'r sefyllfa ddiweddaraf. Ar 4 Ionawr fe wnaethom drafod newid ein cynlluniau; fodd bynnag, cafodd ein trafodaethau lleol ei disodli gan ymyriad y Gweinidog. Cyhoeddodd y byddai pob ysgol yn parhau i ddysgu o bell tan 18 Ionawr. Pan wnaed y penderfyniad i ddychwelyd ar 6 Ionawr, roedd y gyfradd yn Sir Fynwy yn 409 fesul 100,000; pan wnaethom ei drafod eto ar 4 Ionawr, roedd y gyfradd wedi gostwng i 316 fesul 100,000. Parhaodd y trafodaethau gyda'r Gweinidog, yna ar 8 Ionawr cyhoeddodd y byddai addysg yn ffurfio rhan o gylch adolygu 3-wythnos, na fyddai unrhyw ddysgu wyneb i wyneb ar gyfer mwyafrif helaeth disgyblion tan 28 Ionawr fan gyntaf, ac mae'n debyg y byddai'n hanner tymor cyn y byddai mwyafrif disgyblion yn dechrau dychwelyd i'r ysgol mewn camau.

Roedd dwy ffactor o amgylch y drafodaeth honno: a oedd ysgolion yn lle diogel ar gyfer disgyblion a staff ac effaith y rhif R ar gau ysgolion ar gyfer dysgu wyneb i wyneb. Mae trafodaethau gyda'r undebau llafur wedi canolbwyntio ar y ffactor gyntaf, ond bob amser gan roi ystyriaeth ddyledus i'r ail. Y canlyniad yw fod ein hysgolion ar agor ar hyn o bryd, gan ddarparu dysgu o bell ar gyfer mwyafrif helaeth y disgyblion, gyda dwy eithriad allweddol: plant bregus a phlant gweithwyr hanfodol. Ar gyfer plant bregus, rydym wedi gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i benderfynu ar 6 categori dysgwyr a ddaw o fewn y grŵp hwnnw – ein hegwyddor sylfaenol yw y dylai unrhyw un sy'n fwy diogel yn yr ysgol na gartref fod yn yr ysgol. Ar gyfer plant gweithwyr hanfodol, bu ychydig o newidiadau o'r cyfnod clo cyntaf pan oedd ein hysgolion yn cynnig darpariaeth Hwb: yn gyntaf daeth yn amlwg mai dim ond un rhiant sy'n rhaid iddynt fod yn weithiwr allweddol i gael mynediad i'r ddarpariaeth ac yn ail, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhestr o swyddi sy'n cyfrif fel 'gwaith hanfodol'. Ond rydym yn parhau i bwysleisio mai dim ond os nad oes dewis arall y dylai teuluoedd ddefnyddio dysgu wyneb i wyneb.

Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, mae 908 o ddisgyblion wedi cofrestru fel plant gweithwyr hanfodol; ar gyfartaledd, yr wythnos ddiwethaf roedd 570 wedi mynychu'r ysgol. Mae 363 o ddysgwyr bregus wedi cofrestru, gyda 218 ar gyfartaledd yn bresennol yr wythnos ddiwethaf. Mae'r ystod nifer sy'n mynychu yn dibynnu ar leoliad a chyd-destun ysgol a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu e.e. mae 100 o blant wedi cofrestru yn Osbaston, gyda dim neu nifer fach yn unig wedi cofrestru yn yr ysgolion mwy gwledig. Drwyddi draw, mae hyn yn gynnydd sylweddol ar yr wythnos olaf o ddarpariaeth Hwb, lle mynychodd tua 400 o blant. Mae'r gyfradd hon yn debyg o gynyddu os ydym yn cadw'r patrwm dysgu o bell am gyfnod estynedig.

Mae hyn yn her am nifer o resymau. Yng Ngwanwyn 2020, cafodd ysgolion eu hailwampio i ddarparu gofal plant ond disgwylir iddynt yn awr gyflwyno addysg. Mae hyn yn defnyddio adnoddau ysgolion gan eu bod yn cefnogi plant yn yr ysgol a hefyd y rhai sy'n cael mynediad i ddysgu o bell, sydd yn ei dro yn effeithio ar reolaeth staff. Rydym wedi cael trafodaethau gyda phenaethiaid ysgol a chydweithwyr yn yr undebau llafur am sut y caiff staff eu rheoli. Her arall yw'r pwysau sylweddol ar rieni: mae ysgolion gyda disgwyliadau uchel iawn ar rieni yn ogystal â theuluoedd nad oes ganddynt am wahanol resymau, bob amser y modd i gefnogi eu plant. Mae felly'n llinell anodd i ysgolion ei cherdded, gan fod rhai teuluoedd eisiau mwy o waith ac eraill eisiau llai. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i ddynodi arfer gorau.

Mae llesiant plant yn elfen hollbwysig drwy gydol y cyfnod. Dros amser,
mae angen i ni feddwl sut ydym yn sefydlu cefnogaeth llesiant. Ffactor hollbwysig arall i'w hystyried yw'r gwahanol ymagweddau at ddysgu o bell o gofio am yr amrywiaeth yn oedran disgyblion.

Mae diffiniadau clir yn bwysig. Caiff 'dysgu o bell' ei ddiffinio fel dull sy'n cyfuno profiadau dysgu wyneb-i-wyneb a dysgu o bell'. Dylai dysgu wyneb-i-wyneb a dysgu o bell ategu ei gilydd, a chael eu gyrru gan un cwricwlwm. Mae 'dysgu cyfunol' yn ddysgu a gaiff ei ddarparu drwy gyfuniad o ddysgu wyneb-i-wyneb a thasgau a gweithgareddau dysgu o bell. Sonnir yn aml am 'ystafell ddosbarth gwrthdro' yn y cyswllt hwn. 'Dysgu wyneb-i-wyneb' yw'r hyn a gaiff plant pan maent yn gorfforol mewn ysgol. 'Dysgu cydamserol' yw pan fo athrawon a dysgwyr yn mynychu gwers yr un pryd, naill ai wyneb-i-wyneb neu ar-lein h.y. gwers fyw. 'Dysgu anghydamserol' yw pan fo athrawon yn darparu deunyddiau dysgu (fideos, pytiau sain, cyflwyniadau ac ati) a gaiff eu lanlwytho ar lwyfan Hwb, y gall myfyrwyr wedyn gael mynediad iddynt unrhyw amser. 'Dysgu ar-lein' (neu 'e-ddysgu') yw addysg sy'n digwydd dros y rhyngrwyd, felly math gwahanol o ddysgu o bell. Bydd penaethiaid ysgolion yn siarad am y dulliau hyn yn y seminar ddydd Iau.

Drwy EAS rydym yn parhau i gynnig cryn dipyn o ddysgu proffesiynol ar gyfer ein hysgolion, fel eu bod yn hollol ymwybodol o'r technegau a'r dulliau diweddaraf. Rydym yn edrych sut yr ydym yn datblygu a rhannu arfer gorau ar draws yr ardal.

**Her**

*Beth yw'r sefyllfa bresennol am ddarpariaeth gliniaduron ac offer?*

Yn y cyfnod clo cyntaf, roedd ymgyrch fawr i ddarparu offer ar gyfer plant gyda nifer sylweddol o offer yn cael ei ddosbarthu. Deall y lefel angen sydd ar ôl oedd ein hystyriaeth gyntaf yn dilyn datganiad y Gweinidog ar 4 Ionawr, felly buom yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion a'r tîm digidol. Fel ar ddoe, roeddem wedi cael 37 cais am liniaduron ar draws ein hysgolion; cawsant eu cyrchu a byddant gyda'r teuluoedd erbyn diwedd yr wythnos. Y drefn yw: rydym yn sicrhau'r offer ac yn gosod Neverware, sydd o'i hanfod yn troi gliniadur yn Chromebook, sy'n rhoi'r holl swyddogaeth sydd ei angen i gael mynediad i Hwb, Google Classroom a'r llwyfannau eraill a ddefnyddir i ddarparu dysgu i oedolion. Fe wnaethom brynu nifer sylweddol o My-Fi ar ddechrau'r pandemig, sef donglau sy'n rhoi cysylltiad uniongyrchol i'r rhyngrwyd ar gyfer aelwydydd sydd â phroblem band eang. Mae gennym nifer ohonynt ar ôl a byddwn yn parhau i'w darparu fel sydd angen. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyflymu ei gyllid EdTech yn sylweddol i adnewyddu stoc TG mewn ysgolion. Bu her yn y gadwyn gyflenwi fyd-eang yn nhermau'r galw sylweddol am offer ond mae gennym 300 Chromebook yn cael eu paratoi ar ein cyfer naw a 170 o ddyfeisiau eraill – felly caiff dros 450 dyfais eu hymestyn i ysgolion yn yr wythnosau nesaf. Fel mae hyn yn digwydd, gellir gosod Neverware ar yr offer hynaf a'i ddosbarthu i deuluoedd, os yw'r angen yn dal i fodoli.

*Pa ganran o blant sy'n derbyn gwersi byw?*

Mae budd dysgu cydamserol/byw yn un dybiedig – dengys ymchwil nad yw o fwy o fudd na dulliau eraill o gyflwyno dysgu o bell. Dywedodd y Sefydliad Gwaddol Addysgol, "Gall disgyblion ddysgu drwy ddysgu o bell. Mae sicrhau bod elfennau addysgu effeithlon yn bresennol – er enghraifft esboniadau clir, sgaffaldau ac adborth – yn bwysicach na sut neu pryd y cânt eu darparu. Nid oedd unrhyw wahaniaethau clir rhwng dysgu mewn amser real (cydamserol) neu ddulliau eraill (anghydamserol). Er enghraifft, gallai athrawon esbonio syniad yn fyw neu mewn fideo a recordiwyd ymlaen llaw. Yr hyn sydd bwysicaf yw os yw'r esboniad yn adeiladu'n glir ar ddysg blaenorol disgyblion neu sut y caiff dealltwriaeth disgyblion ei asesu yn ddilynol." Mae hyn yn dangos fod gan y ddau ddull eu lle. Mae'n amhosibl dweud fod 'un maint yn gweddu pawb'. 'Nid yw cael plentyn o flaen gliniadur am ddiwrnod cyfan yn ganlyniad da. Mae ymgysylltu ag athrawon ac ystafell ddosbarth yn wirioneddol bwysig. Mae'n debyg mai'r ffordd ymlaen yw meddwl am i rai tasgau fod yn anghydamserol a rhai yn gydamserol mewn achosion lle mae disgyblion angen cyswllt gydag athrawon.

*A ydym yn tracio'r lefel ymgysylltu sydd gan ddisgyblion gyda darpariaeth dysgu cyfunol?*

Mae ein holl ysgolion yn tracio lefelau ymgysylltu. Mae gan rai ysgolion well mynediad i dadansoddeg nag eraill, a rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr i ddeall hynny. Un o'r heriau, yn anochel, yw y bydd pobl yn gwneud cymariaethau rhwng dosbarthiadau o fewn ysgol, rhwng ysgolion mewn ardal ac yn y blaen, ond mae gwahanol ymagweddau mewn gwahanol ysgolion at addysgeg a sut mae dysgu'n digwydd. Felly mae peth amrywiaeth i'w ddisgwyl. Gall fod gwendid os oes nifer fawr mewn aelwyd yn ceisio defnyddio'r rhyngrwyd yr un pryd – gall cael adnoddau anghydamserol y gall plan eu ddefnyddio'n ddiweddarach fod o fudd yno.

*A oes rhyw fath o ddarpariaeth argyfwng y gallwn ei roi yn ei le ar gyfer y rhai sydd angen offer, yn hytrach nag aros i'r archeb fynd trwodd? Sut mae darparu offer yn cyd-fynd gyda'r nifer fawr o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim?*

Gwelsom dwf mawr mewn prydau ysgol am ddim, yn gysylltiedig gydag effaith economaidd y pandemig. Rydym yn talu £3.90 y diwrnod fesul plentyn yn uniongyrchol ar sail wythnosol i'n teuluoedd sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Yng nghyswllt ymateb argyfwng, erbyn diwedd yr wythnos bydd unrhyw un sydd wedi dweud eu bod angen offer wedi ei gael. Yn nhermau darpariaeth rhieni, rydym yn darparu'r offer hwn i'r teuluoedd hynny sydd ei angen. Pe byddai mynediad i ddysgu i barhau i fod yn her i deulu, yna ar ryw bwynt mae'n dod yn fath o fregusrwydd, a'r adeg honno gallem feddwl am ddarparu lle mewn ysgol ar gyfer y dysgwr dan sylw er mwyn cael mynediad i'r adnoddau yno. Ond yr holl dystiolaeth a gawsom yw y cafodd yr offer ei gyflenwi i'r cartrefi hynny sydd ei angen.

*Er gwybodaeth, mae BT ac EE ar hyn o bryd yn cynnig data heb gyfyngiad heb ddim cost ychwanegol i helpu gyda dysgu cartref.*

Ydynt. Mae'r Prif Weithredwr wedi bod yn ymgyrchu ar-lein yn ddiweddar i godi ymwybyddiaeth o hyn, gan fod rhai o'r cynigion hynny ar gael yn Lloegr ond nid o reidrwydd yng Nghymru. Bu ysgolion yn ceisio hysbysu teuluoedd am y cyfleoedd hynny.

**Crynodeb y Cadeirydd:**
Cawsom eglurhad am ddysgu cydamserol ac anghydamserol. Mae rhieni wedi siarad gydag aelodau am galedwedd – mae'n galonogol clywed am ddarpariaeth hynny, a band eang, i deuluoedd incwm isel. Mae'n bryder mawr ar draws y wlad, yn arbennig mewn teuluoedd gyda nifer fawr o blant a rhieni yn gweithio gartref. Byddwn yn cadw llygad ar y mater hwn. Bydd y Cynghorydd Dymock yn rhannu manylion cynigion data heb gyfyngiad BT ac EE. Mae'r pwyllgor yn diolch i bawb sy'n gweithio mewn addysg.

6. **Cynllun Gwaith Ymlaen y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc**

Gweithdy cyfrwng Cymraeg ar 28 Ionawr am 2pm. Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc ar 11 Chwefror i drafod Cynllun Busnes EAS a strategaeth Prydau Ysgol am Ddim.

7. **Cynlluniwr Gwaith Cabinet a Chyngor**

8. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion.

9. **Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

The meeting ended at **12.33 pm**